

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

#### ‘Agenda ar gyfer Newid’ ‘Agenda for Change’

**Q12 Jenny Randerson:** Will the Minister make an updated statement on ‘Agenda for Change’? OAQ0915(HSS)

**C12 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad diwedddaredig am yr ‘Agenda ar gyfer Newid’? OAQ0915(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** Currently, 91 per cent of staff in Wales have been matched and 67 per cent have been consistency-checked and passed to pay roll; 47 per cent are in receipt of ‘Agenda for Change’ pay. It is anticipated that the transition to ‘Agenda for Change’ will approach completion by the end of the year.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Ar hyn o bryd mae 91 y cant o staff yng Nghymru wedi eu paru a 67 y cant wedi eu gwirio am gysondeb a'u hanfon ymlaen i'r gyflogres; mae 47 y cant yn derbyn tâl ‘Agenda ar gyfer Newid’. Rhagwelir y bydd y trosglwyddo i ‘Agenda ar gyfer Newid’ yn agosáu at gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

#### Cyllid y GIG NHS Finances

**Q13 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on NHS finances in Gwent? OAQ0886(HSS)

**C13 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid y GIG yng Ngwent? OAQ0886(HSS)

**Brian Gibbons:** Unaudited accounts for 2005-06 indicate a break-even position for each of the local health boards in Gwent, with the trust presenting a deficit of £6.3 million. Work is ongoing across the community to produce a strategic change and efficiency plan to deliver a balanced position

**Brian Gibbons:** Mae cyfrifon sydd heb eu harchwilio ar gyfer 2005-06 yn dangos bod pob bwrdd iechyd lleol yng Ngwent mewn sefyllfa lle nad ydynt wedi gwneud elw na cholled, gyda'r ymddiriedolaeth yn dangos diffyg o £6.3 miliwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws y gymuned i lunio cynllun

for 2006-07 and to recover the 2005-06.

newid ac effeithlonrwydd strategol er mwyn cael sefyllfa gytbwys ar gyfer 2006-07 ac er mwyn adennill y diffyg yn 2005-06.

### **Gwasanaethau Ambiwllans Ambulance Services**

**Q14 Jonathan Morgan:** What discussions has the Minister had with managers at the Welsh Ambulance Services NHS Trust following the departure of the former chief executive? OAQ0894(HSS)

**C14 Jonathan Morgan:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda rheolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ar ôl i'r cyn-brif weithredwr adael? OAQ0894(HSS)

**Brian Gibbons:** On 1 June 2006 I had two meetings with managers of the Welsh Ambulance Services NHS Trust, one with the chair and new interim chief executive and one with the chair, interim chief executive, non-executive board members, executive board members and staff representatives. We discussed performance, modernisation and plans for the future.

**Brian Gibbons:** Ar 1 Mehefin 2006 cefais ddau gyfarfod gyda rheolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, un gyda'r cadeirydd a'r prif weithredwr dros dro newydd ac un gyda'r cadeirydd, y prif weithredwr dros dro, aelodau anweithredol y bwrdd, aelodau gweithredol y bwrdd a chynrychiolwyr staff. Buom yn trafod perfformiad, moderneiddio a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### **Sganiau MRI MRI Scans**

**Q15 Christine Chapman:** Will the Minister make a statement on access to MRI scans for people from the Cynon valley? OAQ0938(HSS)

**C15 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at sganiau MRI ar gyfer pobl cwm Cynon? OAQ0938(HSS)

**Brian Gibbons:** Currently, patients from Cynon valley are referred to Pontypridd and Rhondda NHS Trust. Robust plans have been put in place, including bringing in a mobile MRI scanner, to relieve the backlog of patients. North Glamorgan NHS Trust is close to completing a business case for a scanner.

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd mae cleifion o gwm Cynon yn cael eu cyfeirio at Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda. Mae cynlluniau cadarn wedi eu rhoi ar waith, gan gynnwys defnyddio sganiwr MRI symudol, er mwyn ymdrin â'r ôl-groniad o gleifion. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg ar fin cwblhau achos busnes am sganiwr.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

#### **Hyrwyddo'r Gymraeg Promoting the Welsh Language**

**Q11 Helen Mary Jones:** What new measures is the Minister taking to promote the Welsh language in Mid and West Wales? OAQ0820(CWS)

**C11 Helen Mary Jones:** Pa gamau newydd mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0820(CWS)

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** The Assembly

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae

Government is working hard to promote the Welsh language in all parts of Wales, including the Mid and West Wales region. We recognise the importance of maintaining Welsh as a community language. I am pleased to say that a new language action plan will be established in Gwauncaegurwen in September 2006.

Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin. Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd cadw'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Yr wyf yn falch o ddweud y bydd cynllun gweithredu newydd ar gyfer yr iaith yn cael ei sefydlu yng Ngwauncaegurwen ym mis Medi 2006.

### **Criced Cricket**

**Q12 Ann Jones:** Will the Minister make a statement about support for cricket in Wales? OAQ0847(CWS)

**C12 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth i griced yng Nghymru? OAQ0847(CWS)

**Alun Pugh:** Through our Sports Council for Wales, over £6 million in lottery funding has been invested to support cricket facilities. This will be used for schemes such as improving and establishing regional and national centres. A good example is the impressive Glamorgan National Cricket Centre.

**Alun Pugh:** Drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, mae dros £6 miliwn o arian loteri wedi ei fuddsoddi i gefnogi cyfleusterau criced. Fe'i defnyddir ar gyfer cynlluniau fel gwella a sefydlu canolfannau rhanbarthol a chenedlaethol. Enghraifft dda o hyn yw Canolfan Griced Genedlaethol drawiadol Morgannwg.

### **Hyrwyddo Celf Promoting Art**

**Q13 Denise Idris Jones:** Will the Minister make a statement about promoting art in Wales? OAQ0865(CWS)

**C13 Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo celf yng Nghymru? OAQ0865(CWS)

**Alun Pugh:** We are supporting initiatives to promote art in Wales, such as the Creative Wales awards, the Principality collectorplan scheme and the national eisteddfod's visual arts pavilion. We also promote Wales's international cultural profile through galleries like Oriol Mostyn and events like the Venice Biennale and Artes Mundi.

**Alun Pugh:** Yr ydym yn cefnogi mentrau i hyrwyddo celf yng Nghymru, fel gwobrau Cymru Greadigol, Cynllun Casglu Principality a phafiliwn celfyddydau gwledol yr eisteddfod genedlaethol. Yr ydym hefyd yn hyrwyddo proffil diwylliannol Cymru yn rhyngwladol drwy orielau fel Oriol Mostyn a digwyddiadau fel Venice Biennale ac Artes Mundi.

### **Datblygu Marchnadoedd ar gyfer Gwaith Artistiaid Developing Markets for the Work of Artists**

**Q14 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on developing markets for the work of artists in Wales? OAQ0828(CWS)

**C14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu marchnadoedd ar gyfer gwaith artistiaid yng Nghymru? OAQ0828(CWS)

**Alun Pugh:** We are committed to developing the economic impact of our artistic community. Through our Arts Council of Wales, we fund initiatives including

**Alun Pugh:** Yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu effaith economaidd ein cymuned artistig. Drwy Gyngor Celfyddydau Cymru yr ydym yn ariannu mentrau sy'n cynnwys

supporting artists at contemporary art fairs, eisteddfodau and the Principality collectorplan. We also promote Wales's international cultural profile through events like the Venice Biennale and Artes Mundi.

cefnogi artistiaid mewn ffeiriau celf cyfoes, eisteddfodau a Chynllun Casglu Principality. Yr ydym hefyd yn hyrwyddo proffil diwylliannol Cymru yn rhyngwladol drwy ddigwyddiadau fel Venice Biennale ac Artes Mundi.

### **Teledu Digidol Digital Television**

**Q15 Christine Chapman:** What discussions is the Minister having with the Department for Culture, Media and Sport regarding digital television in Wales? OAQ0866(CWS)

**C15 Christine Chapman:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog yn eu cael gyda'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â theledu digidol yng Nghymru? OAQ0866(CWS)

**Alun Pugh:** I am in regular contact with the Department for Culture, Media and Sport on broadcasting matters which affect Wales, including digital television. The Welsh Assembly Government is represented on the UK Government digital switchover group which meets quarterly.

**Alun Pugh:** Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch materion sy'n ymwneud â darlledu sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys teledu digidol. Cynrychiolir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar grŵp trosglwyddo digidol Llywodraeth y DU sy'n cyfarfod bob chwarter.